Graddau Ymchwil Allanol (PhD ac MPhil)

Cyflwynir a phrosesir ceisiadau ar gyfer ymchwil mewn man cyflogaeth allanol yn yr un modd ag a nodir yn 11.4 ac 11.5 o'r Llawlyfr Ansawdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried addasrwydd academaidd yr ymgeisydd yn ofalus, dichonoldeb y prosiect, digonolrwydd y cyfleusterau ymchwil a'r trefniadau goruchwylio. Rhaid i'r Brifysgol fod yn fodlon y bydd cyswllt digonol rhwng y (darpar) myfyriwr a'r goruchwyliwr yn cael ei gynnal drwy gydol y cyfnod astudio, a bod yr astudiaeth arfaethedig yn cael cydweithrediad llawn cyflogwr y myfyriwr i sicrhau, ymhlith materion eraill, nad yw amodau cyflogaeth y myfyriwr yn newid yn ystod y cyfnod astudio. Rhaid i Bennaeth Ysgol y Graddedigion hefyd fod yn fodlon â'r trefniadau goruchwylio lleol ym man gwaith y myfyriwr. Rhaid bodloni pob un o'r gofynion hyn er mwyn gallu cynnig lle.

Dylai ceisiadau am ymchwil allanol gynnwys datganiad ysgrifenedig o gefnogaeth gan gyflogwr yr ymgeisydd. Yn ogystal, bydd gofyn i gyflogwr yr ymgeisydd gydsynio â Phennaeth yr adran academaidd berthnasol y bydd y gwaith ymchwil yn cael ei wneud o dan oruchwyliaeth a chyfarwyddyd tîm goruchwylio. Bydd y rheolaeth dros bwnc yr ymchwil a'r holl amodau sy'n llywodraethu'r ymgeisyddiaeth bob amser yn aros gyda Phennaeth yr adran academaidd berthnasol a bydd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Gyfadran dan sylw. Bydd y tîm goruchwylio yn cael ei enwebu gan Bennaeth yr Adran, gyda dyletswyddau penodol yn cael eu neilltuo. Bydd gan y tîm goruchwylio yr hawl i gysylltu â'r myfyriwr yn eu man gwaith, a chael mynediad i'w gwaith yn ôl yr angen.

Rhaid cadw cyswllt rhwng y myfyriwr a'r tîm goruchwylio drwy gydol cyfnod yr ymchwil. Argymhellir bod timau goruchwylio myfyrwyr ymchwil allanol yn darparu datganiad clir o'r trefniadau goruchwylio, gan gynnwys amlder y cyswllt wyneb yn wyneb a drefnwyd, a bod cofnod ysgrifenedig yn cael ei wneud o bob cyfarfod goruchwylio. Dylai'r trefniadau hyn hefyd fod yn berthnasol i unrhyw fyfyriwr ymchwil sy'n ymgymryd â chyfnod estynedig o ymchwil i ffwrdd o Aberystwyth. Fel gyda phob myfyriwr ymchwil, cynhelir ymarferion monitro ymchwil yn rheolaidd, gyda gwaith dilynol priodol yn ôl y gofyn.

Rhaid i fyfyrwyr ymchwil allanol hysbysu Pennaeth yr adran academaidd berthnasol ar unwaith am unrhyw newidiadau i'w cyflogaeth neu eu hamodau cyflogaeth yn ystod eu hastudiaethau. Ar ôl derbyn hysbysiadau o'r fath, bydd y Brifysgol yn adolygu'r amgylchiadau ac yn penderfynu a yw'n briodol i gofrestriad y myfyriwr barhau ai peidio.